

2018 Rhif 57 (Cy. 16)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Heol Aberhonddu, Y Fenni, Sir
Fynwy) (Gwahardd Aros, Llwytho
a Dadlwytho) 2018

Gwnaed 10 Ionawr 2018

Yn dod i rym 16 Ionawr 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ionawr 2018 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol Aberhonddu, Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho) 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, Heol Aberhonddu, y Fenni yn Sir Fynwy.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraffau 17 a 18, diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Gwahardd Aros ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod.

Gwahardd Llwytho a Dadlwytho ar unrhyw adeg

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd lwytho neu ddadlwytho ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod.

Esemptiadau

5. Ni fydd dim yn erthyglau 3 a 4 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

(a) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

- (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
- (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
- (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau o'r gefnffordd; neu
- (iv) gosod, codi, addasu, neu atgyweirio yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig fel y'i diffinnir yn Neddf Telathrebu 1984(2);

(b) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y dibenion hynny ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(c) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt;

(2) 1984 (p. 12). Diwygiwyd Atodlen 2 gan baragraff 2(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21).

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(e) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

- (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
- (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
- (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
- (iv) pan fydd yn gweithredu yn unol â chyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Ionawr 2018

Nina Ley

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

Y darnau hynny o ochrau gogleddol a deheuol y gefnffordd, Heol Aberhonddu, Y Fenni, sy'n ymestyn o bwynt 8 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Red Barn Lane hyd at bwynt 79 o fetrau i'r dwyrain o ganol ei chyffordd ag Union Road West.

ATODLEN 2

Gwahardd llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg

Y darnau hynny o ochrau gogleddol a deheuol y gefnffordd, Heol Aberhonddu, Y Fenni, sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gorllewin o ganol ei chyffordd ag Union Road West hyd at bwynt 8 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Red Barn Lane.